# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 3**

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

**PENNOD 1**

YSMYGU

*Mangreoedd di-fwg*

**9 Lleoliadau gofal awyr agored i blant**

(1) Mae lleoliadau gofal awyr agored yng Nghymru yn ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon.

(2) Mae mangre yn lleoliad gofal awyr agored i'r graddau—
 (a) nad yw'n gaeedig nac yn sylweddol gaeedig, a
 (b) y mae o fewn is-adran (3) neu (4).

(3) Mae mangre o fewn yr is-adran hon—
 (a) os yw wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) ("Mesur 2010") fel mangre y mae person wedi ei awdurdodi i ddarparu gofal dydd i blant ynddi, neu
 (b) os yw'n rhan o fangre sydd wedi ei chofrestru yn y modd hwnnw.

(4) Mae mangre o fewn yr adran hon os yw'n rhan o fangre (y "mangre ddomestig") sy'n fan preswylio arferol person sydd wedi ei gofrestru i weithredu fel gwarchodwr plant o dan Ran 2 o Fesur 2010.

(5) Nid yw lleoliad gofal awyr agored o fewn is-adran (3) yn ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon ond pan yw gofal dydd i blant yn cael ei ddarparu—
 (a) yn y lleoliad gofal awyr agored, neu

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 9 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) mewn mangre sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Fesur 2010 (pa un a yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig ai peidio) y mae'r lleoliad gofal awyr agored yn rhan ohoni.

(6) Nid yw lleoliad gofal awyr agored o fewn is-adran (4) yn ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon ond—

(a) pan yw'r gwarchodwr plant yn gweithredu fel gwarchodwr plant yn y fangre ddomestig (pa un ai mewn rhan ohoni sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig ai peidio) ar gyfer o leiaf un plentyn, a

(b) pan yw'r plentyn hwnnw neu, yn ôl y digwydd, o leiaf un o'r plant hynny yn y lleoliad gofal awyr agored.

(7) At ddibenion yr adran hon, mae i'r cyfeiriadau at ddarparu gofal dydd a gweithredu fel gwarchodwr plant yr un ystyr ag ym Mesur 2010.

(8) Nid yw mangre i gael ei thrin fel pe bai o fewn is-adran (3) neu (4) i'r graddau y mae'n dir ysgol (gweler adran 10 (tir ysgolion) am hyn).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 9 mewn grym ar 1.3.2021 gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 9 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2